

MYND I GERDDED AR Y BWS



Langland a Chaswell



'Mynd i Gerdded ar y Bws' yw un o fen-trau Dinas a Sir Abertawe i annog twristiaeth gynaliadwy a ffyrdd iach o fyw drwy hyrwyddo teithiau cerdded byr sydd wedi'u cysylltu â theithiau bws.

Gwybodaeth am Fysus

Dydd Llun-dydd Sadwrn (bob 15 munud)

Dydd Sul (dim gwasanaeth): First Cymru Rhif 2C i Newton o Orsaf Fysus Abertawe. Gwiriwch cyn teithio.

Llinell Deithio Cymru ☎ 0870 608 2 608

www.traveline-cymru.org.uk

Uchafbwyntiau'r Daith Gerdded

- Dau draeth tywod gyda chyfleusterau - edrychwch am gytiâu traeth lliwgar Langland o'r 1920au a'r 1930au.
- Golygfeydd syfrdanol ar draws Môr Hafren i ogledd Dyfnaint a'r tu hwnt.
- Cewch weld y frân goesgoch, yr ehedydd, yr hebog tramor a'r boncath ar hyd y daith gerdded hon.
- Mae blodau gwyllt fel yr eithin, clustog Fair, y blodyn neidr a'r gludlys gwyn yn orchudd arbennig o liwgar yn y gwanwyn.

Cysylltiadau Defnyddiol

Canolfan Croeso Abertawe

☎ 01792 468321 ✉ tourism@swansea.gov.uk

www.dewchifaeabertawe.com

www.abertawe.gov.uk/aonb



Dechrau a Gorffen:

Safle bws ar Heol Caswell gyferbyn â Caswell Drive, Newton.

Pellter/amser: Tir:

Tua 2 filltir, 1-2 awr. Yr wyneb yn amrywio o dir caled a llyfn, i dir meddal ac anwastad. Mae grisiau ond dim camfeydd.

Gwybodaeth Diogelwch:

Mae'r llwybr yn croesi'r cwrs golff - gwyliwch rhag y peli golff yn hedfan drwy'r awyr! Mae'r llwybr ger ymyl y clogwyni ac yn gwro ar hyd yr arfordir.

Byddwch yn barod:

Gwisgwch ddillad ac esgidiau addas ar gyfer yr amodau a'r tymhorau.

Lluniaeth:

Lluniaeth ym Mae Langland a Bae Caswell.

Toiledau Cyhoeddus:

Bae Langland, Bae Caswell.

- Ewch yn ôl ychydig lathenni ar hyd y ffordd y gwnaethoch gyrraedd ar y bws i Heol Caswell. Trowch i'r chwith ac wedi ychydig o lathenni, trowch i'r dde ar hyd Hillgrove (heol breifat, ond llwybr cyhoeddus).
- Dilynwch y trac wrth iddo droi i'r dde a chroesi rhan o'r cwrs golff. Dilynwch y llwybr nes i chi gyrraedd y grisiau sy'n arwain i lawr i lwybr yr arfordir.

- Trowch i'r dde a cherdded i lawr y grisiau'n ofalus nes i chi gyrraedd llwybr yr arfordir. Trowch i'r chwith a dilyn y llwybr o gwmpas yr arfordir i Fae Langland.
- Cerddwch hebio i'r cytiâu traeth cyntaf ar eich chwith ac yna troi i'r chwith i fyny'r lôn i ffwrdd o'r Bae i waelod Heol Brynfield. Trowch i'r chwith a dilyn y lôn tuag at Glwb Golf Bae Langland.

- Cyn adeilad y clwb, trowch i'r dde hebio i'r arwydd 'Dim Mynediad' a dilyn y llwybr cul ar draws ac yna wrth ymyl ffordd glir y cwrs golff.

- Yma, byddwch yn dod allan ar drac. Croeswch y trac ac i fyny'r banc i ail drac. Croeswch y trac a dringo ychydig o risiau i drydydd trac, y buoch yn ei ddilyn yn gynharach.

- Trowch i'r dde a dilyn y trac, gan ailroedio'r llwybr yn ôl i Heol Caswell. Trowch i'r chwith ac yna i'r dde i ddychwelyd i'r safle bws.

Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg argraffu - Ionawr 2014. Mae taflenni eraill yn y gyfres hon ar gael gan Ganolfan Croeso Abertawe, www.abertawe.gov.uk/aonb Stryd Plymouth, Abertawe SA1 3QG.



City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe



Langland and Caswell Walking by Bus



Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans
© hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2014